*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** | |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** | |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx – Prif Swyddog Tân** | |
| Swyddog Cyswllt | | |
| Pwnc | **Adroddiad Gweithgarwch Tanau Gwyllt – Haf 2026** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi sicrwydd i'r Aelodau ynghylch y gweithgarwch tanau gwyllt sylweddol a welwyd ledled Gogledd Cymru yn ystod haf 2026, yr ymateb gweithredol ac aml-asiantaethol, yr effaith ar gymunedau ac adnoddau, a'r blaenoriaethau ar gyfer parodrwydd a gwytnwch yn y dyfodol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ers 12 Gorffennaf 2026, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymateb i nifer o danau gwyllt sylweddol, gan gynnwys digwyddiadau mawr ar Fynydd y Dref ger Capel Ulo ac yn y Rhinogydd ger Harlech. Gwnaed datganiad o ddigwyddiad mawr gan fod sawl digwyddiad ar unwaith ac oherwydd yr effaith bosibl ar gyflwyno gwasanaethau. Effeithiodd y tân ar Fynydd y Dref ar oddeutu 230 erw, a bu rhaid ymateb iddo'n barhaus am dros 48 awr, tra bod y tân yn y Rhinogydd wedi effeithio ar oddeutu 2,000 erw, gan ofyn am ymateb aml-asiantaethol sylweddol dros bron i bythefnos.

3 Bu criwiau'n gweithio ar dir anghysbell ac anodd, gan ddefnyddio toriadau tân naturiol a rhai wedi'u creu, adnoddau tanau gwyllt arbenigol a gweithrediadau hir ar y lleoliad. Ar Fynydd y Dref, cafodd 36 eiddo eu gwacáu rhag ofn, a dychwelodd y trigolion yn ddiogel yn hwyrach ymlaen. Ar y Rhinogydd, fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig cymorth o'r awyr pan ddaeth awyren addas ar gael. Cafodd yr ymateb ei gefnogi gan asiantaethau partner a chafwyd cymorth cydfuddiannol gan Wasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

4 Trwy gydol y digwyddiadau, dangoswyd proffesiynoldeb a gwytnwch diffoddwyr tân, swyddogion, staff yr ystafell reoli, timau cymorth, gwirfoddolwyr a phartneriaid. Roedd y digwyddiadau hefyd yn atgyfnerthu arwyddocâd gweithgarwch atal, hyfforddiant, offer arbenigol, lles, gwytnwch cenedlaethol a threfniadau cymorth o'r awyr.

5 Mae dysgu sefydliadol a'r effaith ariannol lawn yn parhau i gael eu hasesu trwy drefniadau llywodraethu a monitro cyllideb sefydledig.

**ARGYMHELLIAD**

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i. **nodi graddfa ac effaith gweithgarwch tanau gwyllt haf 2026;**
ii. **cydnabod cyfraniad personél y Gwasanaeth, asiantaethau partner, gwirfoddolwyr a chymunedau lleol;**
iii. **a chefnogi'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo i gofnodi gwersi a ddysgwyd, i gryfhau gweithgarwch atal tanau gwyllt a gwytnwch, i adlewyrchu gofynion yr ochr weithredol a gofynion ariannol sy'n dod i'r amlwg wrth gynllunio at y dyfodol.**

**CEFNDIR**

7 Mae darlun risg y Gwasanaeth yn newid. Mae cyfnodau hir o dywydd poeth, sych a gwyntog yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd tanau glaswellt a llystyfiant yn datblygu i fod yn ddigwyddiadau cymhleth sy'n gofyn am adnoddau parhaus. Roedd yr ymateb i'r tanau'n digwydd ochr yn ochr â'r ymatebion brys arferol, gan ennyn cryn sylw gan y cyhoedd a'r cyfryngau yn ogystal â diddordeb gwleidyddol.

8 Cyhoeddwyd digwyddiad mawr ym Mynydd Conwy ar 12 Gorffennaf ag cafodd ei sefyll i lawr unwaith y gallai adnoddau reoli'r gweithgaredd sy'n weddill trwy drefniadau arferol. Roedd diffoddwyr tân yn parhau i fod yn bresennol yno i fonitro amodau ac i reoli mannau problemus. Datblygodd tan y Rhinogydd ar dir mynyddig ac anghysbell ger Llyn Cwm Bychan. Roedd yn anodd iawn mynd ato mewn cerbydau ac ar droed, a'r tân yn bygwth ardaloedd coedwigaeth a chynefin gwarchodedig.

**GWYBODAETH**

9 Roedd ymateb yr ochr weithredol yn gofyn am dactegau tanau gwyllt arbenigol, cerbydau mynediad cul, cymorth rheoli digwyddiadau, criwiau cymorth a phresenoldeb parhaus. Ar Fynydd y Dref, defnyddiodd criwiau doriadau tân naturiol a rhai ychwanegol i gyfyngu ar linell y tân, a oedd oddeutu 1,600 metr o hyd yn ôl yr adroddiadau cyntaf. Gwellodd y sefyllfa ddigon i ganiatáu i'r trigolion a oedd wedi gadael eu cartrefi ddychwelyd adref ar 13 Gorffennaf, er bod mwg a mudlosgi yn parhau, a'r safle yn cael ei fonitro'n weithredol rhag fflamau.

10 Ar y Rhinogydd, gweithiodd diffoddwyr tân yn agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu a chryfhau toriadau tân, i wlychu mannau problemus, ac i ddiogelu'r coedwigoedd a'r tir amgylcheddol sensitif o'i amgylch. Roedd maint safle'r tân a pha mor anghysbell ydoedd yn golygu bod gweithrediadau ar y ddaear wedi parhau am gyfnod estynedig. Roedd tri deg chwech o griwiau'r Gwasanaeth yn rhan o'r ymateb i'r tân ar y Rhinogydd ac ymatebodd 22 o griwiau i'r tân ar Fynydd y Dref.

11 Roedd trefniadau cydlynu strategol a thactegol yn cefnogi penderfyniadau ar y cyd a'r dyraniad o adnoddau arbenigol. Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru bersonél arbenigol, arbenigedd rheoli tir a pheiriannau trwm. Gofynnwyd am gymorth o'r awyr trwy'r trefniadau sefydledig ac, ar ôl i'r galw cenedlaethol uchel effeithio ar y cymorth oedd ar gael, anfonwyd hofrennydd i gynorthwyo'r gwaith mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd. Roedd asedau awyr yn cefnogi, yn hytrach na disodli, gwaith cydgysylltiedig diffoddwyr tân a phartneriaid ar y mynydd.

12 Fe wnaeth cymorth cydfuddiannol gan Wasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru helpu i gynnal gwytnwch. Trwy gyfathrebu cyhoeddus cyson, gofynnwyd i bobl osgoi ardaloedd dan effaith y tanau, i ddilyn cyngor am lonydd a oedd wedi'u cau ac osgoi mwg, ac i ddweud os byddan nhw'n gweld tân. Dywedwyd wrth breswylwyr yr oedd y mwg yn effeithio arnynt i aros tu mewn gyda'r ffenestri a drysau ar gau nes byddai'r amodau yn gwella. Drwy gefnogaeth y cyhoedd ac amynedd cymunedau lleol llwyddwyd i gynnal gweithrediadau diogel.

13 Rhannodd y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol ddiweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau a chynorthwyo i roi sawl cyfweliad i'r cyfryngau a sesiynau briffio i'n budd-ddeiliaid. Roedd y negeseuon yn cydnabod gwaith criwiau a phartneriaid, yn egluro gwerth yr ochr weithredol a chyfyngiadau'r cymorth o'r awyr, ac yn osgoi dyfalu am achosion tân tra bod ymchwiliadau yn parhau. Denodd y digwyddiadau sylw cenedlaethol, gan gryfhau'r achos dros gynnal sgwrs gydgysylltiedig ledled Cymru am weithgarwch atal, parodrwydd ac ymateb i danau gwyllt.

14 Gwaith atal yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau niwed. Roedd y cyngor a roddwyd i'r cyhoedd yn canolbwyntio ar osgoi cynnau tanau agored a defnyddio setiau barbeciw tafladwy, gwaredu pethau ysmygu yn gyfrifol, mynd â sbwriel a gwydr adref, cadw draw o safleoedd lle mae digwyddiad a ffonio 999 yn brydlon o le diogel.

15 Mae'r digwyddiadau wedi darparu sylfaen dystiolaeth sylweddol ar gyfer dysgu sefydliadol strwythuredig ac aml-asiantaethol. Mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys trefniadau lles a rhyddhau yn ystod ymatebion hir, mynediad at adnoddau arbenigol, sicrwydd cymorth o'r awyr, rheoli digwyddiadau, gwytnwch Rheoli Tân, cymorth cydfuddiannol, cyfathrebu, offer, hyfforddiant ac atal. Dylai'r dysgu lywio canllawiau gweithredol, ymarferion a phenderfyniadau am ein gallu yn y dyfodol.

16 Mae'r digwyddiadau hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd strategol hyfforddiant realistig a rhagoriaeth wrth reoli. Mae angen i ddiffoddwyr tân baratoi’n gynyddol ar gyfer tanau gwyllt ar raddfa fawr, llifogydd a risgiau technoleg sy'n dod i'r amlwg. Mae Hwb Awen yn parhau i fod yn berthnasol i'n gallu yn hyn o beth yn y dyfodol, er y bydd unrhyw ddatblygiad yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'w achos busnes ar wahân, cyllido a threfniadau llywodraethu.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Roedd yr ymateb yn cefnogi cymunedau gwydn a chydlynol trwy ddiogelu bywydau, cartrefi, busnesau, seilwaith, amaethyddiaeth, bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol. Mae gweithgareddau atal a phartneriaeth hefyd yn cefnogi gwytnwch cymunedol hirdymor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. |
| Cyllideb | Cynhyrchodd y digwyddiadau gostau ychwanegol o ran cyflogeion, goramser, dyletswydd ar alwad, tanwydd, arlwyo, lles, cerbydau, offer, nwyddau traul ac Offer Gwarchod Personol. Mae'r effaith ariannol lawn yn dal i gael ei fesur drwy fonitro'r gyllideb, ac mae swyddogion yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogaeth bosibl drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio unrhyw benderfyniad cyllido ychwanegol. |
| Cyfreithiol | Cyflwynwyd yr ymateb trwy ymateb brys statudol yr Awdurdod a chyfrifoldebau argyfyngau sifil posibl. Nid oes angen penderfyniad cyfreithiol ar wahân gan yr adroddiad hwn. |
| Staffio | Mae digwyddiadau hir yn rhoi baich gweithredol a phersonol sylweddol ar ddiffoddwyr tân, swyddogion, yr Ystafell Reoli a swyddogaethau cymorth, gan gynnwys llawer o ddiffoddwyr tân ar alwad sy'n cydbwyso dyletswyddau Gwasanaeth ag ymrwymiadau gwaith a theuluol eraill. Bydd gofynion lles, adfer, cymhwysedd a gwytnwch yn cael eu hystyried drwy'r broses adolygu. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Darparwyd gwybodaeth gyhoeddus trwy sianeli swyddogol a dylai barhau i fod yn hygyrch ac yn ddwyieithog. Dylai gwaith atal a pharodrwydd yn y dyfodol ystyried anghenion pobl dan effaith y canlynol: mwg, gwacáu eiddo, ynysu gwledig, anabledd, cyflyrau iechyd, iaith ac allgau digidol. |
| Risgiau | Mae tanau gwyllt yn parhau i fod yn risg strategol sylweddol sy'n parhau i newid. Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys sawl digwyddiad ar yr un pryd, ymrwymo adnoddau am gyfod hir, tir anodd, cyfyngiadau o ran argaeledd awyrennau arbenigol, lles diffoddwyr tân, colled amgylcheddol, tarfu ar gymunedau a phwysau ariannol. Mae lliniaru yn dibynnu ar waith atal, pobl wedi'u hyfforddi, offer priodol, rheoli digwyddiadau cadarn, cymorth cydfuddiannol, partneriaethau gwydn, cymorth o'r awyr wedi'i seilio ar dystiolaeth a dysgu systematig o ddigwyddiadau sylweddol. |